

BUCHEDD BANGOR



CYLCHGRAWN
CADEIRLAN
DEINIOL SANT
YM MANGOR
THE MAGAZINE
OF SAINT
DEINIOL'S
CATHEDRAL
IN BANGOR



Cadeirlan
Deiniol Sant
ym Mangor

Saint Deiniol's
Cathedral
in Bangor



ONID OEDD EIN
CALONNAU AR
DÂN YNOM? O SUL
BACH Y PASG TAN
DDIWEDD MEHEFIN
WERE NOT OUR
HEARTS BURNING
WITHIN US? FROM
LOW SUNDAY UNTIL
THE END OF JUNE

24.4.2022-26.6.2022

RHAD AC AM DDIM

EWCH Â CHOPIAU I'W RHANNU

FREE

PLEASE TAKE COPIES TO SHARE

CROESO WELCOME

Garcia

Croeso i'r trydydd rhifyn hwn o **Buchedd Bangor**, cylchgrawn newydd **Cadeirlan Deiniol Sant ym Mangor**.

"Buchedd" yw'r enw a roddir ar gofnod o fywyd rhywun, a cheir bucheddau'r saint o'r Canol Oesoedd sy'n adrodd hanes rhai o brif seintiau Celtaidd Cymru.

Mae **Buchedd Bangor**, felly, yn rhyw fath o gofnod o fywyd ein cymuned ni o gyfeillion Crist ym Mangor yr awr hon. Fe geir yma gymysgedd o ddefnydd ysbrydol a gwybodaeth ymarferol am ein bywyd ar y cyd.

Byddai'n "buchedd" ni am Dymor y Pasg eleni yn cofnodi y cynhaliwyd 21 oedfa yn y Gadeirlan rhwng Sul y Blodau a Sul y Pasg. Derbyniondd 14 o bobl Fedydd Esgob drwy law yr Esgob Cynorthwyol yn ystod Gwylnos y Pasg. Yn y Cadeirio Archesgobol a'r Ordeinio Diaconiaid, bydd y Côr yn perfformio dau bremière o gerddoriaeth newydd a gomisiynwyd gan y Gadeirlan. Ac ar un prynhawn Mercher ar ddiwedd mis Ebrill, cafodd 33 o oedolion a 12 o blant eu bwydo o Fanc Bwyd ein Cadeirlan.

Mae llawer iawn yn cael ei gyflawni yma, er gogoniant i Dduw; ac y mae llawer eto i'w wneud, yn enwedig wrth i ni fyfyrto ar alwad diweddar yr Archesgob am i feithrin disgyblion ac efengylu egniol i fod yn nodau ein Heglwys.

Diolch i chi am ddilyn Crist a rhannu ein Newydd Da fel rhan o fywyd y Gadeirlan a Bro Deiniol. Fel arfer, dyma eich gwahoddiad i fod yn rhan lawn o ddefodau a dathliadau'r Gadeirlan, ac i wahodd eraill i ymuno â ni wrth i ni, yn llawen ac yn gydwytbodol, roi gogoniant i Dduw.



Welcome to this third issue of **Buchedd Bangor, the new magazine of Saint Deiniol's Cathedral in Bangor.**

"Buchedd" is the old Welsh name given to a record of someone's life, and "bucheddau'r saint" (the "lives of the saints") are those medieval collections of works telling the story of the Age of the Saints.


Buchedd Bangor is, therefore, a sort of record of the life of our community of Christ's companions here in Bangor at this time. It offers a mixture of devotional material and practical knowledge about our life together.

Our Eastertide "buchedd" would record that 21 services were held at the Cathedral between Palm Sunday and Easter Day. 14 people were Confirmed by the Assistant Bishop at the Easter Vigil. At both the Enthronement and the Ordination services, the Choir will perform world premières of new music commissioned by the Cathedral. And on one Wednesday afternoon at the end of April, 33 adults and 12 children were fed from our Cathedral Foodbank.

We can give thanks that much is being achieved here, to God's glory; and there is much yet to be done, especially as we reflect on the Archbishop's recent call for a deeper discipleship and an energised evangelism to be marks of our Church.

Thank you for being part of our community of discipleship and evangelism at Cathedral and in Bro Deiniol. As ever, this is your invitation to be fully involved in the rites and celebrations of the Cathedral, and to invite others to join us as we, joyfully and conscientiously, give glory to God.

**Oddi wrth yr
Is-Ddeon
From the
Sub-Dean
Canon Siôn
Rhys Evans**



PANED HEFO JANET GOUGH

Ymhob rhifyn o Buchedd Bangor, rydym yn cwrdd ag aelod o gymuned y Gadeirlan. Y tro hwn, rydyn ni'n cwrdd â'n Canon Lleyg, Janet Gough.

Yn holi mae Naomi Wood, ein Cyfarwyddwr Cyfathrebu esgobaethol a'n Gweinidog Teulu yn y Gadeirlan ac ym Mro Deiniol.



Naomi Wood

Dywedwch ychydig wrtha'i am Janet.

Wel, adeiladau ydi fy "mheth" i. Mae gen i'r swydd orau yn darlithio, ysgrifennu a chynnig cyngor ynghylch eglwysi hanesyddol. Am wyth mlynedd roeddwn yn Gyfarwyddwr Cadeirlannau ac Adeiladau Eglwysig ar gyfer Eglwys Loegr. Dwi'n lwcus bod gen i ddau llyn i'm bwa. Astudiais Hanes a Hanes Celf yng Nghaergrawnt. Ond dwi hefyd yn Gyfrifydd Siartredig ac wedi gweithio yn y byd gwahanol iawn hwnnw o gyllid corfforaethol a rheolaeth busnes yn Sotheby's. Mae hynny'n golygu fy mod yn deall cynllunio busnes a chynaliadwyedd busnes, sydd, wrth gwrs, yn faterion pwysig iawn.

Roeddwn i'n lwcus iawn i gael fy magu mewn teulu Cristnogol eithaf cryf ac roeddwn yn mynd i'r Ysgol Sul tan oeddwn i'n 11 oed. Roedd y ddwy ysgol uwchradd es i iddyn nhw'n ysgolion Cristnogol felly mi ddysgais i lawer am y Beibl a gwasanaethau eglwysig. Yna es i i'r brifysgol a dechrau cwestiynu popeth – gan gynnwys fy ffydd. Ond roedd dau beth wnaeth fy nghadw yn y ffydd ac mae'r pethau hynny wedi bod yn gyson trwy fy mywyd. Y peth cyntaf oedd cerddoriaeth. Dwi ddim yn gerddorol – doeddwn i ond yng nghôr yr ysgol am fod ganddyn nhw bolisi cynhwysol o "bydd pawb sydd eisiau canu yn cael canu"! Ond dwi wastad wedi bod wrth fy modd efo cerddoriaeth eglwysig. Bues i'n ffodus iawn i gael canu *Meseia* Handel yn Abaty Westminster lle mae George Handel ei hun wedi'i gladdu.

GETTING TO KNOW JANET GOUGH

In each edition of Buchedd Bangor, we meet another member of the Cathedral community. This time, we meet our Lay Canon, Janet Gough.

Asking the questions is Naomi Wood, our diocesan Director of Communications and our Family Minister at the Cathedral and in Bro Deiniol.

Tell me a little about Janet.

Well, buildings are my “thing”. I have the best job lecturing, writing and providing consultancy on historic churches. For eight years I was the Director of Cathedrals & Church Buildings for the Church of England. I’m lucky to have two strings to my bow. I studied History and History of Art at Cambridge. But I’m also a Chartered Accountant and have worked in that very different world of corporate finance and business management at Sotheby’s. That means I understand business planning and sustainability which are, of course, very important.

I was very lucky to be brought up in quite a strong Christian family and went to Sunday School until I was 11. Both the secondary schools I went to were Christian schools so I learnt a lot about both the Bible and church services.

Then I went to university and began to question everything – including my faith. But what kept me hanging on in there, and has been constant through my life were two things. The first was music. I’m not musical, I was only in the school choir because they had an inclusive policy of “everyone who wants to sing can”! But I’ve always loved Church music. I was very fortunate to sing Handel’s *Messiah* in Westminster Abbey where George Handel is actually buried.



Ond yn fwy arwyddocaol, adeiladau. Rwyf bob amser wedi bod â diddordeb mewn hanes ac mae adeiladau'n fynegiant materol o hanes.

Sut ddechreuodd eich diddordeb mewn adeiladau? A yw'r ymdeimlad o le wedi bod yn bwysig i chi erioed?

Pan oeddwn i yng Nghaergrawnt aeth tiwtor â ni o amgylch Capel Coleg y Brenin, sydd â phensaernïaeth wych. Ond yr hyn a'm trawodd go iawn oedd y ffenestri. Mae dwy reng o'r ffenestri enfawr hyn, un uwchben y llall. Straeon o'r Testament Newydd ydi'r rheng isaf a thynnwyd fy sylw at y ffaith mai'r hyn a geir yn y rheng uchaf yw straeon o'r Hen Destament sy'n rhagfynegi'r stori'n sy'n cael ei hadrodd yn y rheng islaw. Roedd yn agoriad gwych i'r ffordd yr oedd y meddwl Cristnogol canoloesol yn gweithio. Taniodd hynny ddiddordeb mewn eiconograffi yndda i ac o'r eiliad honno ymlaen, mae arnaf ofn, roedd adeiladau wrth fodd fy nghalon. Gallaf gofio mynd o Gaergrawnt hefyd ar daith maes i Rushton Triangular Lodge. Mae popeth am fan'no mewn trioedd – tair ochr, tair ffenestr , tri llawr. Fe'i hadeiladwyd ar ddiwedd yr unfed ganrif ar bymtheg gan rywun nad oedd yn cael dweud ei fod yn Gatholig ond mi ddangosodd hynny drwy adeiladu'r adeilad hwn dim ond er mwyn



Capel Coleg y Brenin | King's College Chapel
gan | by Jean-Christophe Benoit

But more significantly, buildings. I've always been interested in history and buildings are a physical manifestation of that.

How did your interest in buildings begin? Has that sense of place always been important?

When I was at Cambridge a tutor took us round King's College Chapel which has fantastic architecture. But what bowled me over was the windows. There are two tiers of these enormous windows. The bottom tier is stories from the New Testament and then it was pointed out to me that the top tier are stories from the Old Testament that foretold the story being told in the tier below. It was a brilliant opening into the way the medieval Christian mind worked. That got me into iconography and from that moment on, I'm afraid, I was hooked on buildings. I can remember from Cambridge also going on a field trip to Rushton Triangular Lodge. Everything is in threes – three sides, three windows, three floors. It was built at the end of the 16th century by someone who wasn't allowed to say he was Catholic but he demonstrated it by building this building for no other reason than to celebrate the Trinity. And I just thought "wo wee, buildings really do speak!" Even the Triangular Lodge, although it's not a holy



Rushton Triangular Lodge
gan | by Nick Richards



dathlu'r Drindod. Ac roeddwn i'n meddwl "ew, mae adeiladau wir yn siarad!" Mae hyd yn oed y Triangular Lodge, er nad ydi o'n adeilad cysegredig, yn ymwneud â chrefydd a ffydd. Mae ein hadeiladau eglwysig yn cwmpasu cymaint o straeon – straeon lleol a straeon cenedlaethol. Mae Abaty Battle yn Hastings, er enghraifft, yn llefaru am oresgyniad Gwilym Goncwerwr ym 1066.

Beth ydi'r cysylltiad rhwng adeiladau eglwysig a ffydd i chi?

Dwi wrth fy modd yn mynd i'r Eglwys ar ddydd Sul i dynnu fi allan o'm hunan. Dwi'n byw yn fy swigen fach fy hun. Dwi'n ffysian ynghylch fy rheulu, yn meddwl am eglwysi, yn rhoi cyngor, yn ysgrifennu ac yn darlithio. Yn sydyn, yn yr eglwys, dwi'n cael fy atgoffa nad ydi rhywun yn dda iawn, neu am ddigwyddiadau ofnadwy mewn manau eraill yn y byd, yn ogystal ag am yr hyn mae'r bobl ifanc yn ei wneud neu'r pethau rhyfeddol eraill mae pobl yn eu gwneud.

Y fi sy'n gyfrifol am yr ymbiliau neu'r gweddïau a dwi'n eitha' bodlon yn gwneud hynny, gan fod paratoi gweddïau meddylgar yn dod yn naturiol i mi. Ond bellach dwi'n gyfrifol am ddau beth. Un yw'r bali rota, sy'n fy ngyrru'n wallgo', a'r llall ydi ysgogi pobl newydd i arwain gweddïau a chynnig cefnogaeth iddyn nhw. Mae hynny'n llawer mwy



Canon Janet Gough

building, is about religion and faith. Our church buildings encompass so many stories – local stories and national stories. The Battle Abbey at Hastings, for example, speaks of William the Conqueror’s Invasion of 1066.

How do Church buildings and faith connect for you?

I love going to Church on a Sunday to take me out of myself. I live in my own bubble – I’m fussing about my family, thinking about churches, giving advice, writing and lecturing. Suddenly at Church I am reminded that someone isn’t very well, or of terrible events

DWI’N CANFOD BOD YR
ADDOLIAD YN DIGWYDD
OHERWYDD EIN BOD NI
I GYD WEDI YMGYNNULL
MEWN ADEILAD

elsewhere in the world as well as what the young people are up to or the other amazing things that people are doing.

I’m responsible for the intercessions or prayers, and am quite happy as I find preparing thoughtful prayers comes naturally. But now I have been given responsibility for two things. One is the bloomin’ rota (which drives me round the bend), and the other is bringing new people to lead prayers and offering support. That’s much more than simply going to a National Trust building and just enjoying the building.

I find that, for me, the worship happens because we are all gathered in a building. I know it does happen over Zoom and that’s okay, but it’s not the same thing. On the way out of Liverpool Cathedral above the West Door is a piece of contemporary art by Tracy Emin, which reads, “I felt you and I knew you loved me”. That completely sums it up – when I’m in a cathedral or other Church building I just get this sense of God.

Too often, perhaps, we get caught up in simply protecting the past. How can we make sure there’s a balance between doing that and moving forwards in mission?

We need not just to make our buildings more physically accessible,

na dim ond mynd i un o safleoedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a jest mwynhau'r adeilad.

Dwi'n canfod bod yr addoliad yn digwydd oherwydd ein bod ni i gyd wedi ymgynnull mewn adeilad. Dwi'n gwybod bod addoli'n digwydd dros Zoom, ac mae hynny'n iawn, ond dydi o ddim yr un peth. Ar y ffordd allan o Gadeirlan Lerpwl uwchben Porth y Gorllewin mae darn o gelf cyfoes gan Tracy Emin, gyda'r geiriau, "I felt you and I knew you loved me". Mae hynny'n crynhoi'n peth i'r dim: pan fydda i mewn cadeirlan neu adeilad eglwysig arall dwi'n profi'r ymdeimlad yma o Dduw.

Yn rhy aml, efallai, rydyn ni'n treulio'n hegri ar ddiogelu'r gorffennol yn unig. Sut allwn ni sicrhau bod cydbwysedd rhwng gwneud hynny a chamu ymlaen o ran cenhadaeth?

Mae angen inni nid yn unig wneud ein hadeiladau'n fwy hygyrch yn gorfforol, ond hefyd yn fwy deniadol. Nid clybiau preifat mohony'n nhw. Yn fy eglwys i rydyn ni newydd gynnal ymgyrch datblygu. Yn sgil hynny, mi sylweddolom ni ein bod yn rhedeg cymaint â 21 o wasanaethau cymunedol, yn ogystal â chynnal gwasanaethau ac astudiaeth Feiblaidd a chenhadu. Mae yna grŵp plant bach, grŵp Alcoholigion Anhysbys, grŵp cerddoriaeth a llawer o grwpiau eraill yn defnyddio'r adeilad. Dwi'n credu bod hynny'n bwysig iawn. Rô'n i'n rhyfeddu pan agorodd Cadeirlan Deiniol Sant fel canolfan frechu yr haf diwethaf, gan frechu 16,000 o bobl y tu mewn i'r Gadeirlan dros gyfnod o dri mis. Mae llawer iawn o bobl sydd erioed wedi mentro i mewn i'n hadeiladau eglwysig ac mae'r mathau hyn o weithgareddau yn gwneud hi'n haws i bobl wneud hynny. Dwi'n credu ei bod yn bwysig ein bod yn gwrandao ar bobl o'r tu allan i'n heglwysi ac yn gweld beth maen nhw am ei weld hefyd. Mae ein hadeiladau yno ar gyfer y cymunedau o'u cwmpas ac mae angen inni ddod o hyd i ffyrdd newydd i gyrraedd y cymunedau hynny.

Mae llawer o bobl, rhai nad oes ganddynt ffydd eu hunain hyd yn oed, sydd â diddordeb dwfn yn hanes ein hadeiladau eglwysig ac sydd am helpu mwy gyda theithiau tywys neu brosiectau eraill. Beth fydddech chi'n ei ddweud wrthyn nhw?

Does dim angen i bobl fod wedi eu hyfforddi mewn diwinyddiaeth, na bod yn gerddorion na haneswyr i gyfrannu. O groesawu ymwelwyr ac arwain teithiau tywys i helpu i hybu natur yn ein mynwentydd ac i ofalu amdanynt, mae yna lawer o ffyrdd ardderchog o gyfrannu mewn ffyrdd gwir arwyddocaol tuag at ddadeni'r adeiladau eglwysig rhyfeddol hyn. [8]

but also more inviting. They're not private members' clubs. In my church we've just run a development campaign. In doing this we realised we have no less than 21 community activities beyond services, mission and Bible study. There's a toddler group, an Alcoholics Anonymous group, a music group and many more groups which use our space. I think that's really important. I was bowled over when Saint Deiniol's Cathedral opened as a vaccination centre last summer, giving 16,000 people their vaccinations inside the Cathedral over three months. An awful lot of people have never actually set foot in our Church buildings and these sorts of activities make that easier for people. I think it's important we listen to people from outside our churches and see what they want too. Our buildings are there for the communities around them and we need to find ways of reaching them.

There are lots of people, some who don't even have a faith of their own, who are deeply interested in the history of our Church buildings who want to help more with guided tours or other projects. What might you say to them?

People don't need to be trained theologians, musicians or historians to get involved. From welcoming visitors and giving guided tours to helping renature and care for our chuchyards, there are many wonderful ways of playing a really significant role in this renaissance of these amazing Church buildings. [P]



Cadeirlan Lerpwl | Liverpool Cathedral
gan | by Barry Hale



DWYN FFRWYTH



Gordon McPhate
ar y dde | on the right

ER LLES EIN HIECHYD,
RYDYN NI I GYD YN
CAEL EIN HANNOG I
FWYTA PUM DARN
O FFRWYTHAU AC O
LYSIAU BOB DYDD.

Nid yw pawb ohonom mor hoff
â hynny o lysiau, ond mae'r rhan
fwyaf ohonom ni'n mwynhau bwyta
ffrwythau!

Mae ffrwythau'n un o driciau mawr
Natur! Tric sy'n cael ei chwarae arnom
gan blanhigion. Mae Coed yn gwneud
eu ffrwythau'n ddeniadol ac yn felys
fel bod anifeiliaid a phobl eisiau eu
bywta! Ond mae'r ffrwythau'n cynnwys
hadau, sy'n gallu tyfu'n goed ffrwythau
newydd os ydyn nhw'n lledaenu ymhell
i ffwrdd o'r goeden wreiddiol. Drwy
fwyta'r ffrwythau rydyn ni'n cael ein
twyllo i ledaenu'r ffrwythau, ac felly
rydyn ni'n asiantiaid bywyd newydd.

Wrth gwrs, os yw'r ffrwyth wedi
mynd yn ddrwg, does neb eisiau
ei fwyta! Mae'r proffwyd Jeremia
yn defnyddio'r ddelwedd honno i
wahaniaethu'n ysbrydol rhwng dau
grŵp o bobl, un a fydd yn cael ei
fendithio a'r llall a fydd yn cael ei
felltithio gan Dduw.

Mae'n disgrifio basged yn llawn o
Ffigys da ac aeddfed, sy'n cynrychioli'r
bobl a gafodd eu halltudio i Babilon,
ymhell o'r cartref yn Jwda ac o addoli
yn y Deml yn Jeriwsalem. Roedden

BEARING FRUIT

Pregethwyd y bregeth hon gan y Tra Pharchg Athro Gordon McPhate rhwng y Cymun Bendigaidd ar Gân a Bendithiad y Sagrafen Fendigaid ar Dydd Mawrth Ffigys, 12 Ebrill 2022.

Y llithoedd oedd
Jeremeia 24 a
Mathew 21:18-22

The Very Revd Professor Gordon McPhate preached this sermon between the Choral Holy Eucharist and Benediction of the Blessed Sacrament on Fig Tuesday, 12 April 2022.

The lessons were
Jeremiah 24 and
Matthew 21:18-22.

FOR THE SAKE OF OUR HEALTH, WE ARE ENCOURAGED TO EAT FIVE PORTIONS OF FRUIT AND VEGETABLES EVERY DAY.

Not all of us are keen on vegetables, but most of us enjoy eating fruit!

Fruits are a great trick of nature! A trick played on us by plants! Trees make their fruits attractive and sweet so that animals and humans want to eat them! But the fruit contains seeds, which can make new fruit trees if they are spread far away from the parent tree. By eating fruit we are tricked into spreading seeds, and so we are agents of new life!

Of course, if fruit has gone bad, it is no longer good to eat! The prophet Jeremiah uses that image to distinguish spiritually between two groups of people, one to be blessed, the other to be cursed by God.

He describes a basket full of good and ripe Figs, to represent the people exiled to Babylon, away from home in Judah and from Jerusalem Temple worship. They suffered as prisoners of war, but through this tragedy they became closer to God. Jeremiah calls them good and ripe Figs because God promises to bless them, to return them



nhw'n dioddef fel carcharorion rhyfel, ond trwy'r trychineb hwnnw, fe ddaethon nhw'n agosach at Dduw. Mae Jeremeia'n eu galw'n Ffigys da ac aeddfed oherwydd fod Duw'n addo eu bendithio a'u dychwelyd gartref lle y byddan nhw'n ffynnu.

Mae Jeremeia'n disgrifio basged lawn o Ffigys drwg ac anfwytadwy, sy'n cynrychioli'r bobl a gafodd ganiatâd y Babiloniaid i aros gartref yn Jwda yn eithaf cyfforddus, ac a oedd yn dal i allu mynd i'r Deml yn Jeriwsalem i addoli.

Ond yn eu diogelwch cyfforddus, roedden nhw'n llithro i ffwrdd oddi wrth ddibynnu ar Dduw! Mae Jeremeia'n eu galw'n Ffigys drwg ac anfwytadwy oherwydd fod Duw'n eu melltithio ac yn addo y byddan nhw'n cael eu symud o'u mamwlad a'u gwasgaru.

Cnewyllyn y neges baradocsaidd yw gwerth ysbrydol ac anghenraid dioddef! Yn nyddiau cynnar Cristnogaeth, mynegodd Mam Anialwch o'r enw Theodora hynny fel hyn:

BYDDED I NI YMDRECHU I FYND I
DEYRNAS DDUW TRWY'R PORTH CUL!

FEL Y COED, OS NAD YDYN NHW WEDI
SEFYLL O FLAEN STORMYDD Y GAEL,
ALLAN NHW DDIM DWYN FFRWYTH,
FELLY Y MAE GYDA NINNAU!

MAE'R OES HON YN STORM, A DIM
OND TRWY LAWER O DREIALON A
THEMTASIYNAU Y GALLWN NI GAEL
ETIFEDDIAETH YN Y DEYRNAS.

Rydyn ni newydd glywed yr hanes rhyfedd am Iesu'n melltithio'r Ffigysbren ddi-ffrwyth, a oedd yn amlwg yn weithred symbolaidd. Beth allai hynny ei olygu?

Yn gyntaf, mae'n rhaid i ni feddwl am arwyddocâd cudd Ffigys. Wrth addoli yn y Deml yn Jeriwsalem, roedd y bobl yn cynnig offrwm i Dduw, a'r ffrwyth cyntaf oedd yn cael ei offrymu oedd Ffigys. Felly, mae Ffigysbren heb ffigys yn cynrychioli cymdeithas grefyddol nad oes ganddi bellach unrhyw beth i'w gynnig i Dduw – sy'n cynnwys pobl oedd wedi dod yn llwgr ac wedi tyfu – oddi wrth Dduw!

Yn ail, mae'n rhaid i ni feddwl am yr hanes yr Efengyl sy'n rhagflaenu'r hanes am y Goeden Ffigys. Hanes yw hwn am Iesu'n glanhau'r Deml, yn taflu'r cyfnewidwyr arian allan. Roedd Teml Jeriwsalem wedi dod yn fusnes llwgr, yn twyllo addolwyr tlawd ac yn yn cael ei rhedeg gan yr awdurdodau crefyddol – yr Uwch Offeiriaid a'r Henuriaid. Roedd y Deml wedi dod fel Coeden heb Ffrwyth!

home, where they will prosper.

Jeremiah describes a basket full of bad and inedible Figs, to represent the people allowed by the Babylonians to stay at home in Judah relatively comfortably, with continued access to Jerusalem Temple worship.

But in their comfortable security they drifted away from dependence on God! Jeremiah calls them bad and inedible Figs because God curses them, and promises that they will be removed from their homeland and scattered.

The paradoxical take-home message is about the spiritual value and necessity of suffering! In early Christian times, a Desert Mother called Theodora expressed it in this way:

**LET US STRIVE TO ENTER GOD'S
KINGDOM BY THE NARROW GATE!**

**JUST AS THE TREES, IF THEY HAVE NOT
STOOD BEFORE THE WINTER STORMS,
CANNOT BEAR FRUIT, SO IT IS WITH US!**

**THE PRESENT AGE IS A STORM, AND
IT IS ONLY THROUGH MANY TRIALS
AND TEMPTATIONS THAT WE CAN
OBTAIN AN INHERITANCE IN THE
KINGDOM.**

We have just heard the strange story about Jesus cursing a fruitless Fig Tree, which was clearly a symbolic act. What could it mean?

First, we need to think about the hidden significance of Figs. In the worship of the Jerusalem Temple, the people made offerings to God, and the first fruit to be offered was the Fig. Therefore, a Fig Tree without Figs represents a religious society which no longer has anything to offer God – consisting of people who have become corrupt and have grown away from God!

Second, we need to think about the Gospel story that precedes the Fig Tree story. It's the account of Jesus cleansing the Temple, throwing the money-changers out. The Jerusalem Temple had become a corrupt business defrauding poor worshippers, and operated by the religious authorities – the Chief Priests and the Elders. The Temple had become like a Tree without Fruit!

Third, we need to think about the Gospel story that follows the Fig Tree story. It's the Parable of the Two Sons.



Yn drydydd, mae'n rhaid i ni feddwl am yr Efengyl sy'n dilyn hanes y Goeden Ffigys. Dyma ddameg y Ddau Fab.

Mae un mab yn addo gwneud beth mae ei Dad yn gofyn iddo ei wneud ac yna ddim yn ei wneud! I Iesu, mae'r Mab hwn yn cynrychioli ymddygiad anufudd yr Uwch Offeiriaid a'r Henuriad tuag at Dduw. Felly, roedd y sefydliad wedi dod fel Coeden heb Ffrwyth!

Mae'r Mab arall yn gwrthod gwneud beth mae ei Dad yn gofyn iddo ei wneud, ac yna'n ei wneud. I Iesu, mae'r Mab hwnnw'n dangos ymddygiad ufudd Pechaduriaid fel Casglwyr Trethi a Phuteiniaid tuag at Dduw. Felly, mae'r rhai sy'n edifarhau yn gallu dod yn iawn gyda Duw a dod yn bobl ffrwythlon.

Yn y clwstwr hwn o hanesion o'r Efengylau, mae yna un neges! Mae'r sefydliad crefyddol Iddewig wedi dod yn llwgr, yn anufudd ac yn ddiffwrwyth – nid dyma bellach yr adwy i fywyd ysbrydol yn Nuw i'r bobl. Daeth yr hyn a ddylai fod yn Goeden Fywyd ffrwythlon yn Goeden Farwolaeth ddiffwrwyth. Mae'n rhaid ei newid am well ffordd at Duw!

Pan felltithiodd Iesu y Goeden Ffigys yn symbolaidd, roedd ar ei ffordd i'r Groes, a oedd ei hunan, yn llythrennol, yn Goeden Marwolaeth. Ac, wrth farw ar y Groes, roedd Iesu ei hunan yn cael ei felltithio, oherwydd roedd yn dwyn Pechodau'r Byd. Fe y dywed Paul wrthym yn Galatiaid, pennod 3:

**PRYNODD CRIST RYDDID I NI
ODDI WRTH FELLTITH Y GYFRAITH
PAN DDAETH, ER EIN MWYN, YN
WRTHRYCH MELLTITH, OHERWYDD Y
MAE'N YSGRIFENEDIG: "MELLTITH AR
BOB UN A GROGIR AR BREN!"**

Ond nid Coeden Marwolaeth yn unig oedd y Groes! Trwy Atgyfodiad Iesu, roedd hefyd yn Goeden Bywyd! Gwrandewch ar Iesu'n sôn ym mhennod 12 o Efengyl Ioan am y farwolaeth sydd o'i flaen:

**OS NAD YW GRONYN GWENITH YN
SYRTHIO I'R DDAEAR AC YN MARW,
Y MAE'N AROS AR EI BEN EI HUN,
OND OS YW'N MARW Y MAE'N DWYN
LLAWER O FFRWYTH.**

Ar ôl marwolaeth ac atgyfodiad Iesu, ni yw'r rhai a ddylai fod yn ffrwythlon! Gwrandewch ar yr hyn y mae Iesu'n ei ddweud yn mhennod 15 o Efengyl Ioan:

One Son promises to do what his Father asks him to do, but then doesn't do it! For Jesus, this Son represents the disobedient behaviour of the Chief Priests and Elders towards God. So the religious establishment has become like a Tree without Fruit!

The other Son refuses to do what his Father asks him to do, but then does it. For Jesus, that Son represents the obedient behaviour of Sinners like Tax Collectors and Prostitutes towards God. So those who repent can get right with God, and become fruitful people.

From this cluster of Gospel stories there is a single message! The Jewish religious establishment has become corrupt, disobedient, and fruitless – no longer the access to spiritual life in God for the people. What should have been a fruitful Tree of Life has become a fruitless Tree of Death. It needs to be replaced by a better way to God!

When Jesus symbolically cursed the Fig Tree he was on his way to the Cross, which itself was literally a Tree of Death. And dying on the Cross, Jesus himself was cursed, because he bore the Sins of the World. As Paul tells us in Galatians chapter 3:

BY BECOMING A CURSE FOR US, CHRIST HAS REDEEMED US FROM THE CURSE THAT THE LAW BRINGS, FOR (THE SCRIPTURE SAYS) "ANYONE WHO IS HANGED ON A TREE IS UNDER GOD'S CURSE".

But the Cross was not only a Tree of Death! By the Resurrection of Jesus, it was also the Tree of Life! Listen to Jesus speaking about his impending death in chapter 12 of John's Gospel:

UNLESS A GRAIN OF WHEAT FALLS INTO THE EARTH AND DIES IT REMAINS ALONE BUT IF IT DIES IT BEARS MUCH FRUIT

After the death and resurrection of Jesus, we are the ones who should be fruitful! Listen to what Jesus says in chapter 15 of John's Gospel:

I AM THE VINE, AND YOU ARE THE BRANCHES. THOSE WHO REMAIN IN ME, AND I IN THEM, WILL BEAR MUCH FRUIT.

MYFI YW'R WINWYDDEN; CHWI YW'R
CANGHENNAU. Y MAE'R HWN SY'N
AROS YNOF I, A MINNAU YNOF EF, YN
DWYN LLAWER O FFRWYTH.

Y ddelwedd yma yw o lesu ei hunan fel Coeden Bywyd. Felly, beth fyddai'n ei olygu i ni fod yn ganghennau ffrwythlon o'i Goeden? Mae'n debyg mai William Temple, Archesgob Caergaint ar un adeg, a fynegodd hyn orau pan ddywedodd:

CARIAD DUW YW'R GWREIDDYN, A
CHARU EIN CYMYDOG YW'R FFRWYTH, O
GOEDEN BYWYD. NI ALL Y GWREIDDYN
NA'R FFRWYTH FODOLI HEB EI GILYDD.
Y NAILL YW'R ACHOS, A'R LLALL YW'R
EFFAITH.

Mewn geiriau eraill, os mai dim ond Gair y Ffydd sydd gennym, ac os nad ydyn ni'n gwneud Gwaith Cariad yn y Byd, yna rydyn ni ond fel Coeden gyda dail ond heb ffrwyth!

Nid ar amrant mae dod yn bobl ffrwythlon – mae'n cymryd amser!

Rwy'n dod i ben gyda'r sylwadau hyn ar y broses o ddod yn ffrwythlon gan y diwynydd Jacob Kattackal:

MAE CRISTIONOGAETH YN DYSGU NAD
PROFIAD AR ÔL MARW'N YN UNIG YW
IACHAWDWRIAETH, MAE'N CYCHWYN
YMA YN Y BYWYD HWN AR Y
DDAEAR. MAE'R BYWYD O RAS EISOES
WEDI CYCHWYN GYDA'N TAITH AR Y
DDAEAR. MAE'N EGINO YMA, ER MAI
YN Y NEFOEDD YN MAE'N BLODEUO
AC YN DWYN FFRWYTH. Y BERTHYNAS
RHWNG BYWYD O RAS YN Y BYD
HWN A BYWYD YN Y NEFOEDD YW
PERTHYNAS YR HEDYN A'R GOEDEN.

[B]

The image here is of Jesus himself as the Tree of Life. So what would it mean for us to be fruitful as branches of his Tree? William Temple, sometime Archbishop of Canterbury, probably expressed it best when he said this:

LOVE OF GOD IS THE ROOT, AND LOVE OF OUR NEIGHBOUR IS THE FRUIT, OF THE TREE OF LIFE. NEITHER ROOT NOR FRUIT CAN EXIST WITHOUT THE OTHER. ONE IS THE CAUSE, AND THE OTHER IS THE EFFECT.

In other words, if we only have the Word of Faith, but do not do the Work of Love in the World, then we are just like a Tree with leaves but no fruit!

Becoming fruitful people is not instant – it takes time!

I conclude with this reflection on the process of becoming fruitful by the Indian theologian, Jacob Kattackal:

CHRISTIANITY TEACHES THAT SALVATION IS NOT ONLY AN AFTER-DEATH EXPERIENCE, BUT STARTS HERE IN THIS LIFE ON EARTH. THE LIFE OF GRACE HAS ALREADY BEGUN IN OUR EARTHLY JOURNEY. IT SPROUTS HERE, ALTHOUGH IT BLOSSOMS AND BEARS FRUIT IN HEAVEN. THE RELATION BETWEEN THE LIFE OF GRACE IN THIS WORLD AND THE LIFE OF HEAVEN IS THE RELATION OF THE SEED AND THE TREE.

[B]



3. IESU'R THERAPYDD


Mae Esgobion a Chorff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru wedi ein gwahodd, yn ystod 2022, i ymgysylltu'n ddyfnach â geiriau'r Beibl. Un o'r ffyrdd y gwnawn hyn yng Nghadeirlan Deiniol Sant yw trwy bum erthygl yn **Buchedd Bangor** a fydd yn ein dwyn yn agosach at yr Efengyl yn ôl Sant Luc.

Rydyn ni wrth ein bodd o gael ein tywys gan y Parchg Luigi Gioia. Diwinydd ac ymchwilydd ym Mhrifysgol Caergrawnt yw Luigi Gioia ac mae'n arfer ei weinidogaeth yn Eglwys Sant Paul, Knightsbridge yn Llundain.

Mae'r traethodau byr hyn ar Luc yn fenter ddeallusol sy'n dyfnhau ein dealltwriaeth. Ond maent hefyd yn offrrwm ysbrydol. Gadewch inni gnoi cil ar eiriau Luigi, a myfyrio arnynt yn weddïgar, wrth inni yfed yn ddwfn o air sanctaidd Duw yn y Beibl.



Luigi Gioia
gan | by Rona Lane



oes dim rhaid bod yn arbenigwr mewn seicdreiddiad Jungaidd i ganfod rhai o'r archdeipiau grymus sydd yn Efengyl Luc. Y prif un yn eu mysg yw'r *môr* y gellir, mewn dau achlysur ar dudalennau cyntaf yr Efengyl hon, ei ddehongli fel symbol o weithgaredd iachau Iesu.

Y môr, yn ôl Carl Gustav Jung, yw'r symbol cyfun am yr isymwybod, y gronfa gudd, enfawr, o reddfau, atgofion a theimladau sy'n rheoli ein hymddygiad, ein meddwl, ein perthynasau a'n hunan amgyffred hyd yn oed pan nad ydym yn ymwybodol o hynny, neu yn hytrach, yn enwedig pan nad ydym yn ymwybodol o hynny.


Mae'r isymwybod, fel y gwyddom ni, yn dangos ei hunan yn enwedig mewn breuddwydion pan fyddwn yn cysgu. Yn wir, mae Luc yn sôn am Iesu'n mynd i mewn i gwch gyda'i ddisgyblion i'w harwain at ochr arall y llyn – hynny yw at ffordd arall o weld realiti – ac yna'n disgyn i drwmgwsg. Rydym yn gyfarwydd â'r eicon o ddisgyniad Iesu i'r Isfyd ble mae'n gafael yn llaw Adda ac Efa ac yn eu rhyddhau o gaethiwed marwolaeth ac ebargofiant. Gallwn weld rhywbeth tebyg yma: wrth gysgu, mae Iesu'n disgyn i ddyfnderoedd isymwybod torfol dynoliaeth ac yn dod â'i rym i iachau yno. Does dim syndod felly, os yw'r môr, yr

3. JESUS THE THERAPIST

The Bishops and Governing Body of the Church in Wales have invited us, during 2022, to engage more deeply with the words of the Bible. One of the ways in which we are doing this at Saint Deiniol's Cathedral is by five articles in **Buchedd Bangor** that will draw us closer to the Gospel according to Saint Luke.

We're delighted that our guide is the Revd Luigi Gioia. Luigi Gioia is a theologian and researcher at Cambridge University and exercises his ministry at St Paul's Church, Knightsbridge in London.

These short essays on Luke are an intellectual enterprise, deepening our knowledge. But they are also a devotional, spiritual tool. Let us take time to digest Luigi's words, to reflect on them, and to use them as preparation for prayer, as we drink deeply from God's holy word in the Bible.



One does not need to be an expert in Jungian psychoanalysis to detect some of the potent archetypes at play in Luke's Gospel. Chief among them is the sea which in two instances of the initial pages of this Gospel can be interpreted as a symbol of Jesus' healing activity.

The sea, according to Carl Gustav Jung, is the collective symbol for the unconscious, this huge hidden reservoir of instincts, memories, and feelings which drive our behaviour, our thinking, our interactions, and our self-perception even when we are not aware of it, or rather especially when we are not aware of it.

The unconscious, as we know, manifests itself especially in dreams when we are asleep. And indeed, Luke portrays Jesus getting into a boat with his disciples with the aim of leading them to the other side of the lake – that is to another way of seeing reality – and there falling into a deep sleep. We are familiar with the icon of the descent of Jesus into the Hades in which he can be seen taking the hand of Adam and Eve and freeing them from the captivity of death and oblivion. We can picture something similar here: during his sleep, Jesus descends into the depths of humanity's collective unconscious and brings there his

isymwybod, yn gythryblus – bod y disgyblion yn cael eu llenwi ag *ofn* (Luc 8:22 f.).

Ychydig o dudalennau ynghynt mae Luc yn disgrifio golygfa debyg: Mae Iesu'n mynd i gwch Seimon, yn eistedd i lawr ac yn dysgu pobl oddi yno, ar y môr, yn siarad wrth feddyliau a chalonnau, yn gafael yn ein deallusrwydd ond, yn ddyfnach byth, yn treiddio i'n isymwybod. Unwaith mae'n gorffen ei araith, mae'n datgan ei fwriad i ddod â Seimon, a ninnau, gydag ef, ymhellach ac yn ddyfnach – mae'n ei wahodd i "Dos allan i ddŵr dwfn a gollyngwch eich rhwydau

MAE OFN AC EUOGRWYDD YMYSG Y TUEDDIADAU MWYAF LLECHWRAIDD EIN HENAID, MAEN NHW'N YSTUMIO EIN CANFYDDIAD NI O'N HUNAIN AC O DDUW

am ddalfa". Y tro hwn, mae'r cyrch i mewn i ddyfnderoedd ein hisymwybod yn dod ag euogrwydd i'r wyneb – pan mae Seimon yn gweld y cwch yn suddo oherwydd maint y ddalfa, mae'n disgyn wrth bengliniau Iesu ac yn erfyn: "Dos ymaith oddi wrthyf, oherwydd dyn pechadurus wyf fi" (Luc 5:8 f.).

Mae ofn ac euogrwydd ymysg y tueddiadau mwyaf llechwraidd ein henaid; maen nhw'n ystumio ein canfyddiad ni o'n hunain ac o Dduw, yn llygru ein pethynasau gydag eraill. Rydym yn ddiffwrwyth yn erbyn y rhagfarnau etifeddol, cyfnewidiol, mewdol hyn oherwydd eu bod yn efelychu ffydd ac edifeirwch yn ddeheuig iawn, pan mewn gwirionedd, maen nhw'n ein cau arnom ein gilydd, yn gwneud i ni amau Iesu, yn gwneud i ni eisiau rhedeg i ffwrdd oddi wrtho. Dim ond ar ôl iddo dinoethi'r ofn ac euogrwydd hyn a dechrau eu hiachau y gallwn ni groesawu Iesu – dyma beth sy'n digwydd pan mae'n ceryddu'r gwynt a'r dyfroedd tymhestlog, yn tawelu'r storm (Luc 8:25), yn chwalu'n hofnau, yn annog Seimon "Paid ag ofni," fel y gall, yn rhydd o'i hualau, adael popeth a dilyn Iesu (5.11).0}

Mae Luc yn gweld Iesu fel y meddyg (Luc 4:23 a 5:31) ac yn disgrifio'i weithgaredd iachau fel "therapi" (Luc 4:23) - gair, trwy gyd-ddigwyddiad, y mae'n hiaith fodern yn ei ddynodi sy'n weithgaredd pobl broffesiynol iechyd meddwl, rydym ni'n eu galw'n "therapyddion" gyda geiriau yn brif gyfrwng eu hiachau.}

healing power. No surprise then if the sea, the unconscious, is in great turmoil – if the disciples are filled with *fear* (Luke 8:22 f.).

